Goruchwyliwr Cyflenwi x 2 swydd

Cyfeirnod y Swydd: YYGC00261W1RDE
Lleoliad: Ysgol Glan Clwyd
Cyflog: Gradd 5 (£16,379 - £18,084)
Oriau: 32.50 awr yr wythnos, Tymor Ysgol yn Unig + 5 HMS
Math o gytundeb: Swydd Tymor Penodol o 01/11/2021 – 30/08/2022
Swydd Allanol

Rydym yn awyddus i benodi 2 Oruchwyliwr Cyflenwi i gynnal sefydlogrwydd a dilyniant i'n disgyblion mewn gwersi sy'n cael eu heffeithio gan absenoldeb byrdymor athrawon. Bydd yr unigolion llwyddiannus yn ymroddedig i hawl pob disgybl i gyrraedd ei holl botensial mewn awyrgylch positif a chefnogol.

Rydym yn falch o'n cymuned a'n disgyblion yma yn Ysgol Glan Clwyd, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd ardderchog ac rydym yn chwilio am unigolyn sy'n rhannu ein disgwyliadau uchel o bob disgybl. Mae Ysgol Glan Clwyd yn ysgol hapus a gofalgar ac mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno â'r tîm.

Mae'n hanfodol bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn medru cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig, ac yn dangos ymrwymiad amlwg tuag at weithio mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.

Bydd y penodiad yn amodol ar Wiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch â'r Dirprwy Bennaeth, Mrs Sian Alwen ar 01745 582611.

Dyddiad Cau: Dydd Sul 10/10/2021

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein trwy gwefan Sir Ddinbych www.sirddinbych.gov.uk/. Am ddulliau eraill o wneud cais, cysylltwch ā Rhian Davies ar 01745 582611 neu drwy e-bost swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk
Rhaid i ymgeiswyr gwblhau ein ffurflen gais i gael ei ystyried. Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiatáol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad.

This Advert is for Cover Supervisors at Ysgol Glan Clwyd for which the ability to speak Welsh is an essential requirement.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.